

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon yn Eglwys Emaus, Bangor (yng nghapel Penuel) am 7.00 o'r gloch nos Iau, Medi 28.

Ail ran y cyfarfod fydd y rhan bwysicaf o ddigon, pan fydd y Parchg Ddr Rhodri Glyn, Llansannan yn pregethu. Bydd yn gyfle arbennig i ni fod dan weinidogaeth Rhodri, sy'n weinidog yng ngofalaeth Eglwysi Bro Aled ers blwyddyn.

Er mai yng Nghapel Curig a chapel Nant y Benglog y magwyd Rhodri o ddyddiau ysgol uwchradd ymlaen, mae wastad yn braf ei glywed yn sôn am ei fagwrf a cyn hynny yn Neiniolen a chapel Ebeneser. Gan fod dwsin o eglwysi yn ei ofalaeth, go brin y caiff Rhodri gyfle i bregethu y tu allan i'w gylch ei hun, ac felly dyma gyfle arbennig i ni yn yr ardal hon i wrando arno'n agor Gair Duw. Byddai'n braf gweld rhai ohonoch yno. Un peth a wn i sicrwydd yw y bydd yn werth bod yno.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Medi 24: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Gwyndaf Jones, Bangor.

Y mis nesaf - Deiniolen

Medi 17

2.00 p.m. - Y Parchg Gwynfor Williams

Medi 24

5.00 p.m. - Y Parchg Gwyndaf Jones

Hydref 1

3.30 p.m. - Y Gweinidog

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Fawrth, Medi 19: Y Gymdeithas Undebol am 7.00 o'r gloch yng nghwmni parti Hogia Bodwrog. Gwneir casgliad at y costau.

Ydd Sul, Medi 24: Cynhelir Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch. Hon fydd yr Oedfa Deulu gyntaf ers yr haf, ac felly edrychwn ymlaen at groesawu pawb i addoli Duw gyda'n gilydd.

CARMEL

Dydd Llun, Medi 18: Clwb Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Medi 22: Dwylo Prysus am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Medi 24: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Medi 21: Cynhelir Bwrlwm am 2.15 o'r gloch.

Dydd Sul, Medi 24: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd hon yn Oedfa Fedydd. Bydd yr Ysgol Sul yn y bore am 10.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Medi 24: Ni fydd oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Medi 17

10.00 a.m. - Oedfa

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Parchg Christopher Prew

Medi 24

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Hydref 1

10.00 a.m. - Mr Glyn Owen


11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Parti Bytholwyrdd



Gronlyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 740: 17 Medi, 2017



Digynfnewid

Mae llyfrau nad edrychodd neb arnynt ers blynyddoedd yn dod i'r golwg yn ein tŷ ni ar hyn o bryd. Nid llyfrau diwinyddol na nofelau na cherddi, ond llyfrau plant. Un ffefryn yw llyfr ac ynddo 40 o luniau o bethau cyfarwydd i blant bach. Does dim math o stori ynddo; dim ond lluniau clir o bethau fel bwrdd a brwsh a phêl a phlat. Mae'r llyfr yn 30 mlwydd oed, ond does ots am hynny: yr un peth yw afal a banana a chath a chi yn 1987 a 2017.

Yr unig ddau a allai fod yn ddieithr i blentyn bach heddiw yw lluniau'r ffôn a'r teledu. Dyna'r unig ddau beth yn y llyfr sydd wedi newid o gwbl ers 1987. Mor wahanol y bocs gwyn a'r ffôn yn ei grud i'r sgriniau enfawr a'r ffônau di-wifr a symudol sydd gennym heddiw. Mae llyfr bach syml yn ei atgoffa o'r newid syfrdanol a welwyd ym myd technoleg y blynyddoedd diwethaf.

Ond does dim rhaid mynd nôl ddeng mlynedd ar hugain chwaith. Mae deng mlynedd yn fwy na digon. Wrth i gwmmi Apple gyflwyno ei ffôn clyfar diweddaraf yr wythnos ddiwethaf, fe'n hatgoffwyd mai deng mlynedd yn unig sydd ers i'r ffôn clyfar cyntaf ddod i'n llaw. Deng mlynedd yn ôl, doedd neb yn gaeth i sgrin fach y ffôn, yn gwylio ffilm neu'n darllen newyddion neu'n chwilio am y gwyliau fargen orau ar wyliau tramor neu got law.

Mor gyflym y datblygodd pethau, ac mor gyflym y mae pethau'n newid. Ond nid popeth chwaith; oherwydd fel

y dengys y llyfr bach lliwgar, mae llawer o bethau heb newid o gwbl wedi'r holl flynyddoedd. Mae cadair a chwpan a chap y llyfr mor gyfarwydd ag erioed.

Ond nid pethau cyffredin o'r fath sy'n aros heb newid. Mae yna bethau pwysicach o lawer heb newid o flwyddyn i flwyddyn. Yr un yw Duw, yn ei sancteiddrwydd a'i fawredd, a'i gariad a'i gyfiawnder. Y digynfnewid Dduw ydyw, o oes i oes. Yr un hefyd yw'r ddynoliaeth. Er pob datblygiad a darganfyddiad, yr un yw pobl yn eu hangen am gariad a llawenydd ac ystyr i'w bodolaeth. A'r un ydynt yn eu gwrthodiad o Dduw a'u methiant i'w garu a'i anrhydeddu. Ond yr un hefyd, diolch am hynny, yw'r Efengyl sy'n dod â gobaith a bywyd. Yr un yw Iesu Grist, a'r un yw'r maddeuant a geir trwyddo am bob pechod a bai.

Pwy a wŷr pa newidiadau a geir dros y blynyddoedd nesaf, a pha bethau sy'n gyfarwydd i ni heddiw a fydd yn ddieithr iawn i blant y dyfodol? Pwy hefyd a wŷr beth fydd hanes ein capeli a'n heglwysi a'r traddodiad Cristnogol yn ein gwlad? Ond pa newidiadau bynnag a ddaw, yr un fydd Duw'r Tad, yr un fydd Iesu Grist y Gwarddwr, yr un fydd yr Ysbryd Glân a'i nerth, a'r un fydd yr Efengyl a ffordd y Bywyd. Yr un fuont erioed; yr un fyddant am byth. Dyna sy'n rhoi cysur a gobaith i ni er gwaethaf pob newid ac ansicrwydd, ac er gwaethaf ein holl feiau a'n gwendidau hefyd.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



‘Yn sicr, da yw Duw i'r uniawn, a'r Arglwydd i'r rhai pur o galon. Yr oedd fy **BEIBL BYW** nhraed bron â baglu, a bu ond y dim i'm gwadnau lithro, am fy mod yn cenfigennu wrth y trahaus ac yn eiddigedus o lwyddiant y drygionus. Oherwydd nid oes ganddynt hwy ofidiau; y mae eu cyrff yn iach a graenus. Nid ydynt hwy mewn helynt fel pobl eraill, ac nid ydynt hwy'n cael eu poenydio fel eraill. Am hynny, y mae balchder yn gadwyn am eu gyddfau, a thrais yn wisg amdanynt. Y mae eu llygaid yn disgleirio o fraster, a'u calonau'n gorlifo o ffolineb. Y maent yn gwawdio ac yn siarad yn ddichellgar, yn sôn yn ffroenuchel am ormes. Gosodant eu genau yn erbyn y nefoedd, ac y mae eu tafod yn tramwyo'r ddaear. Am hynny, y mae'r bobl yn troi atynt, ac ni chânt unrhyw fai ynddynt. Dywedant, “Sut y mae Duw'n gwybod? A oes gwybodaeth gan y Goruchaf?” Edrych, dyma hwy y rhai drygionus – bob amser mewn esmwythyd ac yn casglu cyfoeth’ (Salm 73:1–12).

Heddiw

Cynhelir oedfa yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Christopher Prew, Porthmadog.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon.

Gwasanaethir yn Llanllechid am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Ddr Sion Aled Owen, Wrecsam. Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Geraint Roberts, Porthaethwy. Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch y bore.

Ni fydd oedfa yn Nant Peris.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

Cymdeithas Llanberis

Bydd cyfarfodydd Cymdeithas Undebol Llanberis yn ail ddechrau yr wythnos hon.

Cynhelir y cyfarfod cyntaf yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Fawrth, Medi 19. Bydd Hogia Bodwrog yn dod atom i gynnal noson.

Mae croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod hwn. Ni fydd tâl mynediad ond gwneir casgliad at gostau'r noson.

Ni lwyddwyd i gynnal y cyfarfodydd hyn y llynedd am na chafwyd Ysgrifennydd i wneud y trefniadau. Gan sylweddoli fod amryw wedi gweld colli'r Gymdeithas aeth Gareth Jones ati dros y mis diwethaf i drefnu cyfres o gyfarfodydd ar gyfer y tymor nesaf. Diolchwn iddo am hynny. Mae wedi llwyddo mewn byr amser i drefnu rhaglen lawn o gyfarfodydd o hyn hyd fis Ebrill nesaf. Y tâl aelodaeth am y flwyddyn fydd £5.

Henaduriaeth Arfon

Bydd Henaduriaeth Arfon yn cyfarfod yn Eglwys Unedig Bethesda ddydd Mawrth yr wythnos hon.

Cynhelir dau gyfarfod: cyfarfod arferol yr Henaduriaeth am 5.00 o'r gloch ac yna Oedfa Ordeinio Blaenoriaid newydd am 7.00 o'r gloch.

CIC

Bydd criw Coleg y Bala yn dod i gynnal noson CIC yn Capel Coch nos Wener, Medi 29, am 7.00 o'r gloch. Dyma fydd cyfarfod cyntaf y tymor newydd a hwn felly fydd cyfarfod cyntaf Catrin Morris, Gweithiwr Ieuectid newydd Cynllun Efe, gyda ni. Edrychwn ymlaen i weld pawb unwaith eto.

Bwrlwm

Mae Bwrlwm wedi ail gychwyn wedi gwyliau'r haf, yn y festri bob yn ail bnawn dydd Iau. Cynhelir y nesaf yr wythnos hon, ddydd Iau, Medi 21 am 2.15 o'r gloch. Dowch draw am banded a sgwrs.

Bore Coffi

Cynhelir Bore Coffi er budd yr elusen Macmillan yng nghartref Ann a Gareth Roberts yn Manod, Ffordd Capel Coch, Llanberis fore Gwener, Medi 29. Bydd croeso i chi alw heibio am banded, rhwng 10.00 a 12.00 o'r gloch.

Ysgolion Sul

Mae'r Ysgolion Sul wedi ail ddechrau yn ar fore Sul yn Llanberis, Llanllechid a Thalybont wedi gwyliau'r haf. (Talybont am 10.00 o'r gloch; Llanllechid am 10.30; a Llanberis am 11.15.)

Mae'r athrawon yn edrych ymlaen at weld y plant er mwyn medru cyflwyno neges fawr y Beibl am gariad Duw yn Iesu Grist iddynt. Diolchwn i'r athrawon am eu gwaith, gan sylweddoli eu bod yn cyflawni rhan bwysig o genhadaeth ein heglwysi trwy gyflwyno gwirioneddau'r Ffydd Gristnogol i'r plant.

Ar ddechrau tymor newydd, gall pawb ohonom gefnogi'r Ysgol Sul mewn sawl ffordd, hyd yn oed os na fuom mewn Ysgol Sul ers blynyddoedd. Dyma rai o'r ffyrdd y medrwn wneud hynny.

◇ Gweddio dros yr Ysgol Sul a'i gwaith. Gweddio dros yr athrawon, iddynt gael nerth a mwynhad wrth ddysgu'r plant. Gweddio dros y plant, iddyn nhw hefyd fwynhau'r Ysgol Sul a chael pob help i weld mor fawr yw Duw ac mor bwysig yw credu yn Iesu Grist a'i ddilyn.

◇ Gwahodd teuluoedd i ddod â'u plant i'ch Ysgol Sul. Mae'r Ysgolion Sul yn ceisio gwneud hynny, ond yn aml iawn trwy wahoddiad personol gan ffrindiau a theulu a chymdogion y bydd pobl yn ymateb ac yn dod atom i'r Ysgol Sul. Felly, os gwyddoch am deuluoedd nad ydyn nhw'n dod i'r Ysgol Sul, dywedwch wrthynt fod croeso iddynt yno.

◇ Ac yna, cefnogi'r gwaith. Un ffordd syml iawn o wneud hynny yw holi am waith eich Ysgol Sul ac annog yr athrawon a diolch iddynt am eu gwaith caled.